

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MEDI 2019
3 Medi 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. Presennol

Dafydd Watts, Rhydwen Roberts, Nia Povey, Glyn Griffiths, Llio Griffiths

Clerc: Huw Rowlands

Ymddiheuriadau: Nyfain Wynn

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion 24 Mehefin 2019

Cadarnhawyd cofnodion 1 Gorffennaf

Cadarnhawyd cofnodion 25 Gorffennaf

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 13 Garreg Frech

Ysgrifennodd y Clerc at Arweinydd Cyngor Gywnedd deirgwaith parthed cyflwr 13 Garreg Frech, ond ni chafwyd unrhyw ymateb na chydabyddiaeth o'r ohebiaeth, er gwaetha'r ffaith eu bod wedi cytuno darparu diweddariaddros yr wythnosau a fu heibio.

Mynegwyd cryn anfodlonrwydd parthed hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at y Cynghorydd Gareth Thomas i ofyn am ei gymorth.

4.2 Mynwent Tan Lan

Penderfynwyd cysylltu â Parc Cenedlaethol Eryri, (yn hytrach na dibynnu ar gwmni RBA i ddechrau), er mwyn trafod pa oblygiadau cynllunio fyddai pe byddai'r fynwent yn cael ei ehangu.

4.3 Y Ganolfan, Llanfrothen

Mae costau rhedeg Y Ganolfan yn gymharol sylweddol. Er bod y dreth annomestig wedi ei hail asesu, mae costau'r dreth honno yn flynyddol dros £1,000.

Ystyriwyd gwahanol opsiynau, a byddai gan Fenter Llanfrothen ddiddordeb o fod yn gyfrifol am Y Ganolfan, cyn belled na fyddai'n rhaid iddynt fod yn gyfrifol am y dreth ddomestig.

Gan mai Cyngor Gwynedd sydd wedi lesu'r Ganolfan i'r Cyngor Cymuned byddai'n rhaid cael eu caniatad hwy cyn medru gwneud unrhyw benderfynid pellach.

Cytunwyd y dylid gofyn am farn bellach gan adran eiddo Cyngor Gwynedd, a thrafod gyda chyrff cymunedol megis Mantell Gwynedd er mwyn gweld pa grantiau oedd ar gael.

4.4 Cyfarfod Cyngorau Cymuned

Cyfeiriwyd at y cyfarfod fu ym Mhenrhyndeudraeth ddiwedd mis Mai efo cynrychiolwyr rhai cyngorau cymuned lleol. Cytunwyd bod cydweithio ar rai agweddau'n syniad da, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Glerc Cyngor Penrhyndeudraeth yn mynegi hyn.

4.5 Ymddiriedolaeth Portmeirion

Penderfynwyd gwahodd cynrychoilwyr Ymddiriedolaeth Portmeirion o gwmni Balfours i gyfarfod mis Tachwedd.

Cytunwyd y dylid penderfynu a rhoi gwybod i'r cynrychiolwyr, pa faterion y dymunid eu trafod ymlaen llaw.

Un mater sydd wedi codi ydy Coedlan Castanwydden Brondanw. Mae'r Goedlan yma sy'n arwain at y ffordd i fyny am Ben Tŵr, yn dioddef o salwch coed, ac mae Coed Cadw a Cadw wedi cytuno y dylid eu torri.

4.6 Goryrru Llanfaglan

Penderfynwyd y dylid ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i'w hatgoffa o fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20 mya yng nghanol pentrefi yn y dyfodol

4.7 Asesiadau Risg Coed

Cafwyd gohebiaeth gan Clerc Cyngor Cymuned Bedglelert yn cyfeirio at reoliadau oedd yn gofyn i gynghorau cymuned wnedu asesiad risg blynyddol o goed yn eu meddiant.

Yr unig goed sydd ym meddiant cyngor cymuned Llanfrothen yw rhai ym mynwent Tan Lan.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru am gadarnhad o'r rheoliadau perthnasol.

4.8 Cod Ymddygiad Mehefin 2016

Mae angen ystyried os yw Cod Ymddygiad Mehefin 2016, yn gyfredol neu angen ei ddiwygio.

4.9 Rhestr Asedau ac Asesiad Risg

Cafwyd cyngor gan Un Llais Cymru mai £1 yw gwerth mynwent Tan Lan ar gyfer y Rhestr Asedau. Mae angen diwygio'r Asesiad Risg i adlewyrchu hyn hefyd.

5.0 Gohebiaeth

- Nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned 1 Hydref 2019 Plas Tan y Bwlch

Derbyniwyd er gwybodaeth

6.0 Materion Ariannol

6.1 Cyflog a chostau Clerc, Gorffennaf ac Awst 2019 £214.00 x 2 = £428.00
£53.40 TWE X 2 = £106.80

6.2 Anfoneb Scottish Power 2019 £308.23 – talwyd

6.3 Microsoft Office £59.99 – talwyd gan y Clerc

6.4 Dunn & Ellis Anfoneb 101974 - £54.00

6.5 Ffurflen Flynyddol

Aethpwyd trwy Ffurflen Flynyddol 2018/19 er mwyn sicrhau ei fod yn gyson efo adroddiad archwilio menwol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2018/19.

Cymeradwyd y ffurflen flynyddol

Cytunwyd i awdurdodi'r Clerc i wario hyd at £100 i brynu sganiwr er mwyn medru rhoi dogfennau ar y we.

Cytunwyd i adolygu dogfennau lywodraethol y cyngor cymuned yng nghyfarfod Ionawr bob blwyddyn. Byddai'n bosibl wedyn gwneud unrhyw ddiwygiadau erbyn y mis Mawrth dilynol, cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Materion Eraill

8.1 Cytiau tu cefn i'r Ganolfan

Ceir dau gwt y tu cefn i'r Ganolfan. Mae'r ysgol wedi gosod giat er mwyn rhwystro disgyblion rhag mynd atynt.

Yn ôl y gweithredoedd, mae'r cytiau wedi eu lesu i'r cyngor cymuned fel rhan o'r Ganolfan.

Cytunwyd y dylid prynu clo ar gyfer y giat, ac fe gytunodd y Cyngorydd Glyn Griffiths i osod clo.

8.2 Ebyst cyfredol cyngorwyr

Dyma restr o ebyst diweddaraf y cyngorwyr

llioglyngriffiths@btinternet.com

Robertjones194@btinternet.com

leuanrhyd@icloud.com

Niapov@gmail.com

lforjos@hotmail.com

dafyddamair@btinternet.com

glyn.rhyd@gmail.com

nyfainwynn@yahoo.com